**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 15 Chwefror 2024 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | A Anthony | R Francis-Davies |
| L S Gibbard | H J Gwilliam | D H Hopkins |
| E J King | A S Lewis | R V Smith |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | Cyfarwyddwr Addysg |
| Martin Nicholls | Prif Weithredwr |
| Ben Smith | Cyfarwyddwr Cyllid / Swyddog Adran 151 |
| Ness Young | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd(wyr):

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr):

---

## 104. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

1) Datganodd y Cynghorydd R V Smith gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 118 "Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol", a dywedodd ei fod wedi cael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau i aros a siarad, ond i beidio â phleidleisio ar faterion yn ymwneud â phenodi llywodraethwyr awdurdod lleol.

## 105. Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) a restrir isod fel cofnod cywir:

1) Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2024.

## 106. Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

## 107. Cwestiynau gan y cyhoedd.

Gofynnodd Alec Thraves (Cyngor Undebau Llafur Abertawe), Dave Warren (Cyngor Undebau Llafur Abertawe a’r Cylch) a Linda Thraves (Cyngor Undebau Llafur Abertawe) gwestiynau mewn perthynas â Chofnod Rhif 111 “Cyllideb Refeniw 2024/25”.

Ymatebodd Arweinydd y Cyngor.

## 108. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 109. Adborth ar Graffu Cyn Penderfynu - Adroddiadau am y Gyllideb (llafar)

Darparodd y Cynghorydd C A Holley adborth ar graffu cyn penderfynu mewn perthynas â'r adroddiadau am y gyllideb.

## 110. Cynllunio Ariannol Tymor Canolig 2025/26 - 2027/28.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi rhesymeg a diben y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn manylu ar y prif dybiaethau ariannu ar gyfer y cyfnod ac yn cynnig strategaeth i gynnal cyllideb gytbwys.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2025/26 i 2027/28 i'r cyngor fel sail ar gyfer cynllunio ariannol y gwasanaethau yn y dyfodol.

## 111. Cyllideb Refeniw 2024/25.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae’r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod “y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol”.*

Cyflwynodd Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn nodi'r sefyllfa bresennol o ran y Gyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 i'w ystyried gan y Cabinet.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi canlyniad yr ymarfer ymgynghori ffurfiol a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r Cynigion Cyllidebol yn Atodiad D yr adroddiad yn ogystal â'r sefyllfa o ran cyllidebau dirprwyedig fel y'u nodwyd yn Adran 4.15 a 4.17 yr adroddiad yn amodol ar y diwygiadau canlynol:

- Gostyngiad yn y cynnydd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a ariennir drwy dreth y cyngor o £1m i £0.6m.

- Dyrannu £0.4m o'r grant craidd gwerth £1.1m sy'n ddisgwyliedig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, yn lle.

- Nodi, gan gynnal felly ein hymrwymiad bwriadedig, y byddwn yn defnyddio'r £1m ychwanegol cyffredinol i gynyddu cyllidebau'r Gwasanaethau Cymdeithasol, gan amrywio'r cymysgedd o gyllid drwy grantiau a threth y cyngor.

- Dyrannu'r £0.7m sy'n weddill o'r cyllid grant ychwanegol o £1.1m i adfer y cyllid o £0.7m y flwyddyn o Gronfeydd wrth Gefn TGCh Ysgolion ond ni fyddwn fel arall yn cynyddu cyfanswm cyffredinol cynnig arian parod yr ysgolion ar gyfer 2024-25, gan gydnabod ein bod eisoes wedi talu mwy na £7m o flaen law o'r gronfa wrth gefn, wrth ddisgwyl cyllid ychwanegol, gan gadw peth arian felly yn y gronfa wrth gefn ar gyfer 2025-26.

- Ailgyfeirio'r £0.4m o rym gwario a ryddhawyd o'r cyllid treth y cyngor a gynigir ar hyn o bryd i ehangu'r cynnig bysus lleol am ddim i 2024-25.

- Bod y Swyddog A151 yn adlewyrchu'r £1.1 o newidiadau sy'n ddisgwyliedig oherwydd grant hwyr ym mhapurau'r cyngor ond hefyd ei fod yn cael ei ddirprwyo i wneud mân newidiadau canlyniadol yn unig i'r ddarpariaeth wrth gefn a/neu chwyddiant fel y gwêl yn dda os bydd y cynnig ychwanegol gwirioneddol yn amrywio o gwbl o'r £1.1m tybiedig. Bod y Swyddog A151 yn dweud wrth y cyngor yn glir ar 6 Mawrth am unrhyw fân newidiadau o'r fath y mae'n eu gwneud wrth dderbyn y setliad llywodraeth leol terfynol.

2) Nodi cyfanswm y gofyniad ariannu presennol a grybwyllwyd yn Adran 4.6 yr adroddiad ac, yn unol â'r camau gweithredu posib a nodwyd yn Adrannau 9 a 10 yr adroddiad, gytuno ar gamau gweithredu i gyflawni Cyllideb Refeniw gytbwys ar gyfer 2024/25.

3) Yn ogystal ag adolygu'r cynigion arbed arian presennol, gwnaeth y Cabinet y canlynol:

a) Adolygu a chymeradwyo'r cronfeydd wrth gefn i'w trosglwyddo sy'n cael eu hargymell yn yr adroddiad.
b) Cytuno ar lefel treth y cyngor ar gyfer 2024-25 i'w hargymell i'r cyngor.

4) Yn amodol ar y newidiadau a nodwyd ac a restrwyd uchod, mae'r Cabinet yn argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

a) Cyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25;

b) Gofyniad y gyllideb ac ardoll treth y cyngor ar gyfer 2024/25.

## 112. Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - 2028/29.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 - 2028-29.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 - 2028/29 fel y nodwyd yn Atodiadau A, B, C, D, E, F a G yr adroddiad.

## 113. Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - cyllideb refeniw 2024/25.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 adroddiad a oedd yn cynnig Cyllideb Refeniw ar gyfer 2024/25 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai.

**Penderfynwyd** argymell y cynigion cyllidebol canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cynigion y gyllideb refeniw fel y nodwyd yn Adran 4 yr adroddiad.

## 114. Cyfrif Refeniw Tai - Cyllideb a Rhaglen Gyfalaf 2023/24 - 2027/28.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd y Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Lleoedd adroddiad a oedd yn cynnig cyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 a chyllideb gyfalaf ar gyfer 2024/25 - 2027/28.

**Penderfynwyd** argymell y canlynol i'r cyngor i'w cymeradwyo:

1) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng cynlluniau a'r cyllidebau diwygiedig ar gyfer cynlluniau yn 2023/24.

2) Cymeradwyo cynigion cyllidebol ar gyfer 2024/25 - 2027/28.

3) Lle caiff cynlluniau unigol fel y'u dangosir yn Atodiad B eu rhaglennu dros y cyfnod 4 blynedd a ddisgrifir yn yr adroddiad, caiff y rhain eu neilltuo a'u cymeradwyo, a chymeradwyir eu goblygiadau ariannol ar gyfer ariannu dros y 4 blynedd.

4) Cymeradwyo'r ymagwedd blaenoriaethu at osod y rhaglen waith sy'n cael ei nodi yn yr adroddiad.

## 115. Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2023/24.*

***Gweithdrefn Galw i Mewn - yn amodol ar Graffu Cyn Penderfynu:*** *Mae'r penderfyniad hwn wedi'i eithrio o Weithdrefn Galw i Mewn yr awdurdod gan fod "y penderfyniad wedi bod yn destun craffu cyn penderfynu ac ni fu unrhyw newid pwysig i'r wybodaeth/dystiolaeth berthnasol".*

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi, Cyllid a Strategaeth adroddiad a oedd yn amlinellu monitro cyllidebau refeniw a chyfalaf 2023/24 yn ariannol, gan gynnwys cyflwyno arbedion cyllidebol.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r sylwadau a'r amrywiadau, gan gynnwys yr ansicrwydd perthnasol parhaus ynghylch y ddarpariaeth cyflog cyfartal, a nodwyd yn yr adroddiad a'r camau gweithredu sydd ar y gweill er mwyn ceisio mynd i'r afael â 'r rhain.

2) Cymeradwyo'r trosglwyddiadau a'r defnydd o'r gronfa wrth gefn fel y nodir ym mharagraff 3.2 yr adroddiad a'r ddarpariaeth chwyddiant fel y nodir ym mharagraff 4.3 yr adroddiad yn amodol ar unrhyw gyngor pellach gan y Swyddog Adran 151 yn ystod y flwyddyn.

3) Bod y Cabinet yn atgyfnerthu'r angen i bob Cyfarwyddwr barhau i leihau gwariant gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu cynlluniau adennill clir lle maent yn gorwario, a chydnabod bod y gyllideb yn gytbwys yn gyffredinol ar hyn o bryd, ond trwy ddibynnu ar ad-daliad (sy'n bell o fod yn sicr) gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol, cyllidebau wrth gefn a ddelir yn ganolog a mwy na'r hyn sy'n ddelfrydol o gronfeydd wrth gefn a glustnodir.

4) Bod y Cabinet yn cydnabod bod yn rhaid lleihau gorwariant costau'r Gyfarwyddiaeth yn llwyr, trwy gynlluniau adennill yn y flwyddyn gyfredol, drwy gamau adennill wedi'u targedu gyda disgwyliad clir o ddewisiadau ail-seilio 'anodd' i gyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer rownd cyllideb 2024/25.

5) Nodi'r gorwariant dangosol ym mharagraff 6.1, gyda chamau gweithredu pellach i'w cadarnhau yn yr alldro unwaith bydd yr wybodaeth am gost derfynol debygol y dyfarniad cyflog cyfartal yn gliriach.

## 116. Adolygiad Blynyddol o Daliadau (Gwasanaethau Cymdeithasol) 2022/23.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal adroddiad, sef yr adolygiad blynyddol diweddaraf o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol, gwelliannau a wnaed yn ystod y flwyddyn a rhestr arfaethedig o daliadau i'w cymhwyso yn 2024/25.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn canfyddiadau'r adroddiad am yr adolygiad blynyddol o daliadau.

2) Cymeradwyo’r cynnydd chwyddiannol o 6% i'w gymhwyso i'r holl daliadau gwasanaethau cymdeithasol a ddaw i rym ar 1 Ebrill 2024

3) Cymeradwyo rhestr o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol, a fydd yn berthnasol o 1 Ebrill 2024, ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

4) Rhoi caniatâd i'r Gwasanaethau i Oedolion i wneud rhagor o waith yn 2024/25 ar godi tâl ychwanegol ar gyfer y llinell fywyd, i dalu costau gosod a chostau rhai newydd.

5) Cytuno ar y rhestr ddiwygiedig o daliadau'r gwasanaethau cymdeithasol 2024/25 (Atodiad 1), a'u hatodi i bolisi Codi Tâl (Gwasanaethau Cymdeithasol) y Cyngor.

## 117. Addysg o Safon (AoS) - Cynigion Arfaethedig a Blaenoriaethau Buddsoddi ar gyfer Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.(Treigl)

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu adroddiad i ystyried a chymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Treigl) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Penderfynwyd:**

1) Ailgadarnhau'r nodau allweddol a ffocws y Rhaglen Amlinellol Strategol a gefnogwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru.

2) Cymeradwyo'r blaenoriaethau buddsoddi cyfalaf arfaethedig y dyfodol ar gyfer y Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (treigl), gan gydnabod nad oes ymrwymiad llwyr i'r cyllid ar naill ai'r Cyngor na Llywodraeth Cymru gan y caiff ei gymeradwyo maes o law fesul achos hyd yn oed os yw'r RhAS yn cael ei gymeradwyo fel arall gan y Cyngor neu Lywodraeth Cymru.

3) Nodi faint o gyllid sydd ei angen yn gyffredinol a'r strategaeth ariannu arfaethedig i gyflawni cyfraniad lleol y Cyngor, gan gydnabod y bydd penderfyniadau cyllido a fforddiadwyedd manwl yn y dyfodol ar gyfer Cynghorau'r dyfodol, cyllidebau'r dyfodol a chynlluniau tymor canolig yn gynnar yn y 2030au.

## 118. Penodiadau Llwyodraethwyr yr Awdurdod Lleol.

Cyflwynodd Grŵp Penodi Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer yr enwebiadau a gyflwynwyd i lenwi swyddi gwag Llywodraethwyr yr awdurdod lleol ar gyrff llywodraethu ysgolion.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r enwebiadau canlynol a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg ar y Cyd ag Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu:

| | |
|---|---|
| 1. Ysgol Gynradd Gendros | Mrs Kathryn David |
| 2. YGG Gellionnen | Mr Ian Tolley |
| 3. Ysgol Gyfun Llandeilo Ferwallt | Mrs Joanne Meller |

## 119. Adroddiad Dyfarnu Contract - Contractau ar gyfer Gwasanaethau Bysus Lleol (PT 24-29).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd ac Isadeiledd adroddiad a oedd yn manylu ar ganlyniad y tendrau diweddar ar gyfer gwasanaethau bysus lleol a gofynnodd am ganiatâd i ddyfarnu contractau.

**Penderfynwyd:**

1) Derbyn y prisiau tendro a argymhellwyd gan y Panel Gwerthuso Tendrau ac a nodir yn Atodlen B yr adroddiad fel y tendrau mwyaf manteisiol yn economaidd.

2) Dyfarnu contractau i'r cwmnïau a nodir yn Atodlen B yr adroddiad.

## 120. Cymeradwyaeth I Dderbyn Grant - Cronfa Cymhelliad Ariannol Cartrefi Fel Gorsafoedd Pwer y Fargen Ddinesig ac Ecosystemau Pontio Gwyrdd (GTE) - Prosiect Trawsnewid Tai a Chartrefi ar Gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth ôl-weithredol ar gyfer 3 chais grant yn ymwneud â:

- Chronfa Cymhelliad Ariannol Bargen Ddinesig HAPS (x2) ac
- Ecosystemau Pontio Gwyrdd (GTE) - Prosiect Trawsnewid Tai a Chartrefi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r cais am gyllid grant ar gyfer yr Ecosystemau Pontio Gwyrdd (GTE) - Prosiect Trawsnewid Tai a Chartrefi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol a nodir yn 2.0.

2) Cymeradwyo'r 2 gais am gyllid grant a nodir yn 3.0 ar gyfer:
   - Cronfa Cymhelliad Ariannol Bargen Ddinesig HAPS ar gyfer Cynllun Adeilad Newydd Rhagor o Gartrefi Tŷ Brondeg ac
   - Ecosystemau Pontio Gwyrdd (GTE) - Prosiect Trawsnewid Tai a Chartrefi ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol.

3) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd, y Prif Swyddog Cyfreithiol a'r Prif Swyddog Cyllid ymrwymo i unrhyw gytundebau sy'n angenrheidiol i sicrhau y caiff y prosiectau eu cyflawni ac i ddiogelu buddiannau'r cyngor.

4) Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Lleoedd a'r Prif Swyddog Cyllid i adennill yr holl wariant perthnasol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiectau o Gronfa Cymhelliad Ariannol Bargen Ddinesig HAPS a Phrifysgol Caerfaddon.

5) Dirprwyo unrhyw benderfyniadau pellach sy'n ymwneud â'r cyllid hwn i'r Cyfarwyddwr Lleoedd ac Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Gwasanaethau. Bydd y cyllid yn cefnogi cynlluniau a gymeradwywyd drwy adroddiad blynyddol Cyllideb Gyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai.

Daeth y cyfarfod I ben am 11.42 am

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | (Add Welsh Month) |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, ??? |
| Penderfyniad yn dod i rym: | |